Swyddog Cyswllt:
Maureen Potter on 01352 702322
maureen.potter@flintshire.gov.uk

At: Bob Aelod o'r Cyngor

23 Chwefror 2018

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod Cyngor Sir y Fflint a fydd yn cael ei gynnal am 2.00 pm Dydd Iau, 1af Mawrth, 2018 yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA i ystyried yr eitemau canlynol

**R H A G L E N**

1 **CYFLWYNIADAU**

Gwobrau Effeithlonrwydd Ynni Rhanbarthol Cymru
Enillydd gwobr "Awdurdod Lleol y Flwyddyn" am ei raglenni effeithlonrwydd ynni domestig ac enillodd Glod Uchel yn y categori "Cefnogaeth i Gwsmeriaid Diamddiffyn" am y gefnogaeth y mae'n ei darparu i aelwydydd mewn partneriaeth â Chanolfan Cyngor ar Ynni Gogledd Cymru.

National Energy Action a Scottish Power – Gworb Arwr Gwres
I gydnabod Joanna Seymour a'r Tîm Ynni am eu cyfraniad sylweddol i helpu pobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd.

2 **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

**Pwrpas:** I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

3 **COFNODION** (Tudalennau 5 - 16)

Cadarnhau cofnodion y cyfarfod fel cofnod cywir ar 30 Ionawr 2018.

4 **DATGAN CYSYLLTIAD**

**Pwrpas:** I dderbyn unrhyw ddatganiad o gysylltiad a chynghori'r Aelodau yn unol a hynny.

5 **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

**Pwrpas:** Derbyn unrhyw gyhoeddiad fel y'i dosbarthwyd.

6 **DEISEBAU**

**Pwrpas:** Derbyn unrhyw ddeiseb.

7 **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

**Pwrpas:** Derbyn unrhyw gwestiwn gan y cyhoedd.

8 **CWESTIYNAU**

**Pwrpas:** Nodi'r atebion i unrhyw gwestiwn a gyflwynwyd yn unol a Rheol Sefydlog 9.4(A) v Cyngor Sir.

9 **RHYBUDD O GYNNIG**

**Pwrpas:** Ystyried unrhyw Hysbysiadau o Gynnig a dderbyniwyd.

10 **CYDNABYDDIAETH I CLARE BUDDEN**

**Pwrpas**: Cydnabod y cyfraniad a wnaed i'r Cyngor gan Clare Budden, Prif Swyddog (Cymuned a Menter) sy'n gadael yr Awdurdod ddiwedd Ebrill i ymuno â Chymdeithas Dai Pennaf.

11 **GOSOD TRETH Y CYNGOR AR GYFER 2018-19** (Tudalennau 17 - 30)

Adroddiad Prif Swyddog (Cymuned a Menter)

**Pwrpas**: I'r Cyngor Sir gytuno ar ffioedd Treth Y Cyngor a phenderfyniadau statudol cysylltiol ar gyfer 2018-19.

12 **CYLLIDEB CRONFA'R CYNGOR 2017/18 A 2018/19 - DEFNYDDIO CRONFA WRTH GEFN A GWEDDILL** (llafar)

Adroddiad llafar Prif Weithredwr, Rheolwr Cyllid Corfforaethol

**Pwrpas**: cynghori'r Cyngor ar (1) canlyniad arfaethedig cronfa wrth gefn a gweddill ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2017/18 a (2) y posibilrwydd o ryddhau cronfa wrth gefn a gweddill pellach i ategu'r gyllideb cyllid ysgolion cynlluniedig ar gyfer 2019/20.

13 **ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW - POLISI 2018/19** (Tudalennau 31 - 68)

Adroddiad Prif Weithredwr, Rheolwr Cyllid Corfforaethol

**Pwrpas:** I gyflwyno argymhellion y Cabinet i'r Cyngor i isod Isafswm Darpariaeth Refeniw synhwyrol er mwyn ad-dalu dyled, ac i adrodd yn ôl ar statws yr adolygiad parhaus o bolisi isafswm darpariaeth refeniw ac unrhyw gyngor pellach am y dewisiadau i ddiwygio'r polisi.

14 **<u>RHEOLAU'R WEITHDREFN ARIANNOL</u>** (Tudalennau 69 - 134)

Adroddiad Rheolwr Cyllid Corfforaethol

**Pwrpas**: Cyflwyno Rheolau'r Weithdrefn Ariannol diweddaraf i'r Pwyllgor Cyfansoddiad er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor Sir.

15 **<u>DATGANIAD AR BOLISÏAU TÂL AR GYFER 2018/19</u>** (Tudalennau 135 - 172)

Adroddiad Uwch Reolwr, Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol -

**Pwrpas:** Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gyhoeddi eu Datganiad Ar Bolisïau Tâl erbyn mis Ebrill bob blwyddyn. Y Datganiad Ar Bolisïau Tâl a gyhoeddir o fewn yr adroddiad hwn yw'r chweched datganiad blynyddol gan Gyngor Sir y Fflint.

Yn ddiffuant,



Robert Robins
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

**<u>HYSBYSIAD GWEDDARLLEDU</u>**

Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffilmio a'I ddarlledu'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd y cyfarfod cyfan yn cael ei ffilmio oni bai fod eitemau cyfrinachol neu wedi'u heithrio dan drafodaeth.

Yn gyffredinol ni fydd y mannau eistedd cyhoeddus yn cael eu ffilmio. Fodd bynnag wrth i chi ddod i mewn i'r Siambr, byddwch yn cydsynio i gael eich ffilmio ac i'r defnydd posibl o'r delweddau a'r recordiadau sain hynny ar gyfer gweddarlledu a/neu ddibenion hyfforddi.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, ffoniwch aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd ar 01352 702345.